Dathlu llwyddiannau yn seremoni wobrwyo
Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst

Cynhaliwyd noson wobrwyo lwyddiannus iawn ar Ionawr 8fed, daeth llawer iawn o ddisgyblion a rhieni ynghyd i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion. Dathlwyd talentau academaidd, chwaraeon a cherddorol yn ogystal â phresenoldeb.

Dywedodd Mr Paul Matthews- Jones, Pennaeth yr ysgol ei fod wedi'i blesio'n fawr â'r noson o ddathlu "*Roedd y dalent a'r llwyddiannau oedd yn cael eu dathlu yn eithriadol! Pleser hefyd oedd cael croesawu Mrs Janet Hughes, cyn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol sydd newydd ymddeol, i'r ysgol fel siaradwr gwadd ac i gyflwyno'r gwobrau".*

Yn ystod y noson cyflwynwyd Ysgoloriaeth Dr Harold Williams am y Canlyniadau Safon Uwch Gorau i Elin Owen a enillodd raddau A*AAA ac i Catrin Davies a enillodd raddau AAABC. Cyflwynwyd Ysgoloriaeth William J. Lewis i Dafydd Evans a enillodd raddau ardderchog sef A*A*AA ac i Daniel Jones a enillodd raddau A*AA. Enillwyr Ysgoloriaeth Holt oedd Rachel Johncock a gafodd raddau AAB, Mali Dafydd ABB, Non Hughes AAB a Kyra Hamilton AAC. Roedd y gwobrau am y canlyniadau UG gorau yr un mor drawiadol: Ffion Hughes AAAA, Ben Griffith AAAA a Haydn Jenkins AAAA - roedd hyn yn coroni diwrnod penigamp i Haydn wedi iddo gael gwybod ei fod wedi ei dderbyn i Brifysgol Caergrawnt.

Mae'r wobr am y canlyniadau TGAU gorau yn cael ei rhoddi yn garedig gan y Rotari, ac mae gwobr eleni yn cael ei rannu gan Elin Arfon, Elin Wrennal a Lowri Roberts, enillodd y tair ohonynt 10 gradd A*.

Roedd yr uchafbwyntiau eraill yn cynnwys gwobr am lwyddiant rhagorol i Rachel Johncock a gynrychiolodd Prydain Fawr ym Mhencampwriaethau Athletau Iau'r Byd a gynhaliwyd ym Marcelona ac mi redodd hefyd yn nhreialon y Gemau Olympaidd.

Llongyfarchwyd aelodau'r Cyngor Ysgol am eu gwaith ardderchog. Gwobrwywyd y Côr Cerdd Dant am eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn, daethant i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Ŵyl Gerdd Dant ac Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst. Daeth y noson i glo gyda pherfformiad gwych o *'I know where I've been'* o'r sioe gerdd *Hairspray.*

Dechrau ysbrydoledig i 2013 drwy ddathlu llwyddiannau 2012 a oedd yn flwyddyn ardderchog a llwyddiannus i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy!